# BWRDD CYNALIADWYEDD

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf 2012 (11:00am)

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Comisiynydd Gareth Jones (Cadeirydd)<br><br>Y Comisiynwyr Alex Aldridge; Margaret Foster<br>Y Cynghorwyr W. J. Chorlton, K. P. Hughes, R. Ll. Hughes, T. Lloyd Hughes, Eric Roberts (fel Is-Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio), Selwyn Williams (fel Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol), Prif Weithredwr, Dirprwy Brif Weithredwraig, Cyfarwyddwr Cymuned Dros Dro. |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 Dros Dro<br>Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid)<br>Rheolwr Rhaglen a Chynllunio Busnes<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor<br>Mr. Andy Bruce (SAC) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Tom Jones |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Comisiynwyr Byron Davies, Mick Giannasi,<br>Y Cynghorwyr Bryan Owen, G. O. Parry MBE |

---

O ystyried y bydd grym yn cael ei drosglwyddo, o bosibl, yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith yr hydref hwn, gwahoddodd y Cadeirydd y rhai oedd yn bresennol i drafod statws a rôl y Bwrdd Cynaliadwyaeth yn y dyfodol fel ffordd o fonitro perfformiad corfforaethol yr Awdurdod. Byddai Comisiynwyr yn parhau i fonitro'r penderfyniadau a wneir ac fe allent ymyrryd pe bai angen.

Draft

### 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Dim i'w ddatgan.

### 2 YMDDIHEURIADAU

Fel uchod.

### 3 COFNODION

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel cofnod cywir, gofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd Gwella a gynhaliwyd ar 28 Mai 2012.

### 4 ADRODDIAD CYNNYDD AR YR ARCHWILIAD DIOGELU PLANT A'R ARCHWILIAD O'R PROSESAU ASESU A RHEOLI ACHOS 2011

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cymuned Dros Dro - dywedodd bod y Gwasanaethau Plant ym Môn wedi bod yn destun sgriwtini manwl trwy gydol 2011/12 gyda phryderon ynglŷn â chapasiti ac ansawdd y gwasanaethau yn ganolog i archwiliad ac adolygiad yr AGGCC. Strategaeth gychwynnol yr Adran mewn ymateb i hyn fu sefydlogi'r gwasanaethau a rhoi ffocws cryf ar

berfformiad a chreu syniad o gyflymder ac awydd i lwyddo ac yn ail, gwella ansawdd a sicrhau trawsnewidiad i greu gwasanaeth oedd yn addas i'r pwrpas dros y ddegawd nesaf.

Fel rhan o'r Amcanion Gwella ar gyfer 2012/13, roedd y Bwrdd Gwella wedi parhau i gyfarfod ac yr oedd ffrydiau gwaith allweddol wedi'u dechrau neu eu cwblhau mewn perthynas â'r canlynol:-

- Cyfrifoldebau corfforaethol
- Polisi, gweithdrefnau a phrotocolau
- Asesiadau a rheoli achos
- Asesiadau a gwasanaethau rheoli achos i blant gydag anableddau
- Monitro, sicrwydd ansawdd a systemau rheoli gwybodaeth
- Anwytho'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol.

Roedd y perfformiad dros y 6 mis diwethaf wedi dangos cynnydd da ac roedd y gwasanaeth wedi gweithio'n hynod o galed i sicrhau'r gwelliannau hyn. Bu'r ffocws ar gyfnodau amser asesu diogelu plant yn ardderchog ond roedd pryder yn parhau ynglŷn â chynaliadwyaeth y perfformiad da heb gryfhau'r strwythur er mwyn sicrhau ansawdd ac i fynd i'r afael â'r angen am staff parhaol a sefydlog, fyddai'n lleihau'r ddibyniaeth ar gefnogaeth staff asiantaeth.

Roedd strwythur newydd wedi'i osod allan, oedd yn addas i'r pwrpas ac a oedd yn rhoi cydbwysedd gyda chryfhau'r llinell flaen ar gyfer asesu a diogelu tra'r un pryd yn mynd i'r afael â'r buddsoddiadau oedd eu hangen i wella ansawdd. Roedd cynaliadwyaeth y gwelliannau a wnaed yn dibynnu ar recriwtio'r bobl iawn gyda sgiliau iawn i'r swyddi hyn.

Gofynnodd rhai o'r Aelodau beth oedd nifer y staff cefnogol o asiantaethau oedd yn cael eu cyflogi gan y gwasanaeth ac a fyddai'n bosibl gwneud mwy o ddefnydd o staff y Cyngor. Nodwyd hefyd y mater o gadw staff o fewn y Gwasanaeth.

Mewn ymateb, dywedodd y Prif Weithredwr bod y TUA yn awyddus i leihau'r ddibyniaeth ar staff asiantaeth arbenigol, ond, byddai angen gwneud hynny mewn ffordd eithaf tameidiog. Roedd y TUA hefyd wedi cytuno i edrych ar y strwythur tâl nad yw yn or-ddeniadol ar hyn o bryd. Roedd hyn yn creu anfantais i'r awdurdod gan na allai gystadlu gydag awdurdodau cyfagos. Efallai y byddai cyflwyno polisi atodi'r farchnad yn ffordd ymlaen a byddai'r Adran yn edrych ymhellach i hyn.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr gymryd sylw o'r sylwadau a wnaed a rhoi diweddariad i'r Bwrdd ar ffyrdd posibl o fynd i'r afael â'r materion hyn.

*Nododd y Bwrdd Cynaliadwyaeth gynnwys yr adroddiad gan ofyn i'r Cyfarwyddwr Cymuned gyflwyno adroddiad pellach i gyfarfod mis Medi o'r Bwrdd hwn ar y defnydd a wneir o staff asiantaeth yn y Gwasanaeth.*

**5. (a) RHEOLI RISG - STRATEGAETH RHEOLI RISG**

Cafwyd adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 Dros Dro ar strategaeth rheoli risg drafft i'r Awdurdod, i'r pwrpas o sefydlu fframwaith ar gyfer rheoli risg yn systematig ac yn effeithiol er mwyn sicrhau bod rheoli risg yn cael ei sylfaenu trwy'r Cyngor cyfan a'i fod yn gwneud cyfraniad gwirioneddol tuag at gyflawni gweledigaeth ac amcanion y Cyngor. Roedd yna ddogfen yn rhoi cyfarwyddyd rheoli risg manwl ynghyd â'r strategaeth ac roedd yn rhoi manylion pellach ar sut y dylid gweithredu'r broses rheoli risg.

Byddai'r Strategaeth yn gosod y sylfaen ar gyfer integreiddio rheoli risg i mewn i ddiwylliant y Cyngor. Byddai hefyd yn ffurfioli proses sydd i'w gosod ar draws y Cyngor i sicrhau cysondeb ac eglurder gyda deall beth yw rôl a manteision rheoli risg yn strategol.

Dylai'r adrodd yn ôl chwarterol ac uwchafu risgiau gydblethu gyda'r trefniadau chwarterol cyfredol ar gyfer adrodd am berfformiad. Y bwriad yw y bydd rheoli risgiau'n cael ei ymgorffori i mewn i gynlluniau busnes fel y gall adrodd am berfformiad adrodd yn ôl yn naturiol ar gynnydd gyda lliniaru risgiau. Byddai mabwysiadu'r Strategaeth yn ffurfioli'r gwaith rheoli risg a wnaed hyd yn hyn a byddai'n symud y Cyngor tuag at fodloni gofynion arferion gorau sy'n cael eu cydnabod, ac archwiliad.

Draft

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth Dros Dro y byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd hwn neu i Fwrdd y Comisiynwyr ar y cyfarwyddyd ar gyfer gweithredu'r strategaeth.

*Nododd y Bwrdd Cynaliadwyaeth gynnwys yr adroddiad.*

**5. (b) RHEOLI RISG – COFRESTR RISG CORFFORAETHOL**

Rhoddodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 gopi o'r Gofrestr Risg Corfforaethol gerbron y cyfarfod yn nodi'r prif risgiau corfforaethol ar draws yr Awdurdod a lefel eu risg. Roedd angen gwneud gwaith pellach yng nghyswllt cwblhau'r cynllun gweithredu, enwi'r swyddog fyddai'n gyfrifol a chwblhau'r dyddiau targed.

Dywedodd y Comisiynydd M. Foster bod y system yn ymddangos fel un glir a chadarn. Y mater nesaf i gael sylw fyddai cwblhau'r colofnau lliniaru o fewn y daenlen fyddai wedyn yn rhoi cyfle i asesu beth oedd y risgiau oedd yn weddill. Yn yr un modd, efallai bod rhai o'r sbardunau oedd wedi'u rhestru bellach wedi dyddio. Byddai raid i'r gofrestr fod yn ddogfen 'fyw' a byddai'n rhaid ail ymweld â hi yn aml er mwyn sicrhau bod popeth yn gyfredol.

Roedd y Cynghorydd R. Ll. Hughes yn gobeithio y byddai'r gofrestr yn rhoi'r hyder i'r Awdurdod fod yn fwy cyndyn i gymryd risgiau nag a fu yn y gorffennol fel awdurdod.

Roedd y Cynghorydd Tom Jones yn ystyried bod angen llyfnhau'r gofrestr ac na ddylai'r Bwrdd ond canolbwyntio ar, dyweder, y deg risg mwyaf pwysig neu fe fyddai'r dasg o fynd i'r afael â phob risg yn dod yn un anymarferol. Roedd yn credu y gellid mynd i'r afael â rhai o'r risgiau ar lefel gwasanaeth.

Holodd y Cadeirydd sut y gallai'r Awdurdod sicrhau bod hyfforddiant ynglŷn â hyn yn dod yn greiddiol ar bob lefel o fewn yr Awdurdod?

Mewn ymateb, dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwraig ei bod angen nodi beth oedd yr anghenion hyfforddi er mwyn cynnal y diwylliant newydd oedd yn cael ei ddatblygu o fewn yr Awdurdod. Roedd rheoli risg yn un o'r prif elfennau yn ogystal â rheoli prosiect a pherfformiad. Dros yr ychydig fisoedd nesaf byddai'n asesu pa hyfforddiant a gafwyd eisoes a beth arall oedd ei angen er mwyn sicrhau newid cynaliadwy.

*Nododd y Bwrdd Cynaliadwyaeth gynnwys yr adroddiad gan ofyn am i ddiweddariad pellach gael ei ddwyn yn ôl i'r Bwrdd yn y man yng nghyswllt y gofynion hyfforddi.*

**6. ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL 2012 – CYNNYDD HYD YN HYN**

Cafwyd adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwraig a'r Rheolwr Cynllunio Busnes a Rhaglen ar y cynnydd a wnaed yn erbyn Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru 2012 ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn.

Fel rhan o sefydlu llwyfan ar gyfer y strwythur llywodraethu cadarnach roedd yn cael ei gydnabod fel rhywbeth hanfodol bod y Cyngor a'r Bwrdd Cynaliadwyaeth yn ystyried yr ystod eang o werthusiadau allanol a wnaed gan nifer o gyrff statudol ac anstatudol, sefydliadau ac unigolion yn asesu perfformiad a threfniadau llywodraethu sylfaenol y Cyngor.

Roedd y Cyngor wedi bod, a byddai'n parhau i fod, yn destun nifer o werthusiadau statudol ac adroddiadau gan gyrff archwilio allanol oedd fel rhan o'u gorchwyl wedi ystyried trefniadau cefnogi gwasanaeth a llywodraethu. Roedd camau gweithredu oedd yn codi o'r adroddiadau hyn yn cael eu dilyn wedyn gan arwyddo i ffwrdd gan y cyngor yn rhywbeth hanfodol o fewn strwythurau llywodraethu sefydliadau aeddfed.

Roedd yr adroddiad hwn mewn ymateb i adroddiad blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru ac roedd yn delio gyda materion a nodwyd gan Gomisiynwyr y Cyngor pan y'u penodwyd ac roedd nifer o'r argymhellion / cynigion ar gyfer gwella wedi'u dogfennu fel rhan o Flaenoriaethau Gwella'r Cyngor am 2012/13. I bwrpasau'r adroddiad hwn roedd eu statws wedi eu lliwio yn ôl eu risg.

*Nododd y Bwrdd Cynaliadwyaeth gynnwys yr adroddiad.*

## 7. CANLYNIAD DROS DRO CYLLIDEB REFENIW 2011/12

Cafwyd cyflwyniad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 Dros Dro yn tynnu sylw at y materion canlynol oedd yn codi o'r Canlyniad Refeniw am 2011-12:

- Balansau ac arian wrth gefn
- Ymateb i alw
- Ymateb i newidiadau yn yr economi
- Arbedion wedi'u hoedi
- Gwariant annisgwyl
- Ymateb

Roedd y cyflwyniad hefyd yn darparu'r prif negeseuon oedd angen eu hystyried ar gyfer cyllideb 2012/13 ynghyd â dyfyniad o ddatganiad cyfrifon 2011/12 yn ymwneud â throsglwyddiadau i/o arian wrth gefn a glustnodwyd.

Crybwyllodd y Cadeirydd bod y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) Dros Dro wedi dweud ynghynt bod yna angen i roi mwy o arian o'r neilltu o dan arian wrth gefn cyffredinol. Holodd a oedd yna unrhyw sgôp yn hyn o beth i werthu rhai o asedau'r Cyngor?

Mewn ymateb dywedodd y Comisiynydd Alex Aldridge bod yna nifer o asedau ar y gweill i'w gwerthu ond bod angen i rai o'r prif safleoedd gael eu rheoli'n ofalus iawn er mwyn cael y gwerth gorau ar yr amser iawn. Ond yn sicr, fe allai gwerthu asedau gynyddu'r balansau'n sylweddol.

*Nododd y Bwrdd Cynaliadwyaeth gynnwys yr adroddiad.*

## 8. CYFARFODYDD YN Y DYFODOL

Nodwyd y byddai cyfarfodydd o'r Bwrdd Cynaliadwyaeth yn cael eu cynnal am 11:00am ar 17 Medi a 29 Tachwedd 2012.

Daeth y cyfarfod i ben am 1:00pm.

**COMISIYNYDD GARETH JONES**
**CADEIRYDD**

Draft